# SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol")

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac nid oes yn rhaid i bersonau sy'n teithio i Gymru ar ôl bod yn un neu fwy o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio gydymffurfio â'r angen i ynysu.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol:

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Cafodd y ddau bwynt a ganlyn eu nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym y diwrnod cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Dyma achos o dorri'r rheol 21 diwrnod (hynny yw, y rheol sy'n nodi y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y caiff offeryn 'gwnaed negyddol' ei osod gerbron y Senedd a'r dyddiad y mae'r offeryn hwnnw yn dod i rym). Rydym yn nodi'r esboniad a roddwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 27 Gorffennaf 2020, sy'n nodi fel a ganlyn:

*Bu'n rhaid dileu Sbaen ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil teithio i mewn o Sbaen wedi codi.*

*Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar 8 Mehefin 2020, rhoddodd Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dystiolaeth i ni ar y cyfyngiadau yng Nghymru. Dywedodd y canlynol: "We actually want to have something that helps the public to understand how they can follow the rules, and that's why the guidance is really important as well".

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, caiff defnyddwyr gwefan Llywodraeth Cymru sy'n clicio ar y linc i weld canllawiau ynghylch "*teithio tramor a dychwelyd adref*" eu cyfeirio at wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae gwefan Llywodraeth y DU yn rhoi cyngor ar ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig, cyn cyfeirio'r darllenydd yn ôl at wefan Llywodraeth Cymru i weld canllawiau ar hunan-ynysu yng Nghymru.

Mae tudalen Llywodraeth y DU yn cynnwys linc i ganllawiau Llywodraeth Cymru, "*How to self-isolate when you travel to Wales: coronavirus (COVID-19)*", neu "*Sut i hunanynysu pan fyddwch yn teithio i Gymru: coronavirus (COVID-19)*" ar yr ochr Gymraeg. Hefyd, gellir cael mynediad at y wybodaeth hon yn uniongyrchol drwy wefan Llywodraeth Cymru fel rhan o'r pecyn o wybodaeth sydd â'r teitl "Teithio: coronafeirws". Mae'n nodi fel a ganlyn: *"os byddwch yn cyrraedd y DU a'ch bod wedi bod y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin o fewn y 14 diwrnod diwethaf, yna bydd angen ichi hunanynysu am weddill y cyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau'r o'r adeg pan wnaethoch gyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin".* Cafodd y wybodaeth hon ei diweddaru ar 7 Mehefin 2020. Fodd bynnag, ers 10 Gorffennaf 2020, nid yw'n ofynnol i deithwyr o wledydd sydd wedi'u hesemptio y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin hunan-ynysu.

Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "*Teithwyr sydd wedi eu heithrio rhag hunanynysu: coronafeirws (COVID-19)"*, wedi'u diweddaru bellach, gan gynnwys rhestr o wledydd sydd wedi'u hesemptio. Nid yw Sbaen wedi'i chynnwys ar y rhestr hon.

Er y gallai pobl sy'n darllen y canllawiau weithio allan yn y diwedd beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud am ddychwelyd i Gymru o dramor, nid yw'r canllawiau'n glir nac yn rhwydd cael mynediad atynt, ac mae hyn yn debygol o ddrysu rhai darllenwyr.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb i'r ail bwynt adrodd o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Gorffennaf 2020**